# Chwarae Rôl - Plant sy'n gweithio mewn Diwydiant

## Nodiadau Canllaw i Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Darganfod pa waith roedd plant yn ei wneud yn y pyllau glo a'r gwaith haearn ger y gamlas
- Dysgu am amodau, bywyd gwaith dydd i ddydd ac addysg y plant oedd yn gweithio yn y pyllau glo a'r gwaith haearn
- Datblygu sgiliau ymchwilio a chwarae rôl

### Adnoddau

- Cardiau chwarae rôl
- Adroddiad cryno'r is-gomisiynydd (at ddefnydd athrawon)
- Taflen gwestiynau chwarae rôl
- Adroddiad 1842



### Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gêm

Mae dysgwyr yn cymryd tro i chwarae rôl yr is-gomisiynydd sy'n ymchwilio Gwaith Haearn a Glo Plas Kynaston a Gwaith Haearn Acrefair, yn edrych ar amodau gweithio, addysg a iechyd y plant sy'n gweithio yno. Bydd dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth go iawn o adroddiad 1842, gan ddefnyddio'r cardiau chwarae rôl er mwyn cymryd rôl y cymeriadau a chyfweld ei gilydd yn eu rolau. Ar ôl chwarae rôl bydd yr athro yn rhannu canfyddiadau cyffredinol yr ymchwiliad gyda'r Pwyllgor (sef y dosbarth cyfan) gan ddefnyddio adroddiad cryno yr is-gomisiynydd. Bydd y Pwyllgor wedyn yn trafod ac yn pleidleisio a ddylai plant barhau i weithio yn y pyllau glo a'r gweithfeydd haearn.

### Comisiwn Cyflogi Plant 1842

Yn 1841, cafodd comisiynwyr gyfarwyddyd gan y Llywodraeth i gynnal ymholiadau i amodau gweithio plant a phobl ifanc mewn pyllau glo a ffatrïoedd ar draws Lloegr a Chymru. Rhoddwyd pwerau iddynt i siarad ag unrhyw un ynglŷn â iechyd, amodau gweithio, moesau ac addysg y plant a'r bobl ifanc oedd yn gweithio yno. Nid oedd tystiolaeth i'r Comisiwn yn cael ei roi o dan lw, ond gwnaed cofnod ysgrifenedig o bob cyfweliad. Mae'n bosib fod rhai gweithwyr, oedd yn ofni colli eu swyddi, wedi bod yn gynnil wrth sôn am eu hamodau gweithio. Roedd rhai plant heb unrhyw brofiad o fywyd gwaith arall ar wahân i gloddio ac ni allent ei gymharu ag unrhyw fath arall o waith. Mae'n bosib fod rhai eraill wedi cymryd y cyfle i siarad yn onest am eu bywydau.

Defnyddiwyd y canlyniadau i gynhyrchu nifer o adroddiadau a gyflwynwyd i Bwyllgor y Llywodraeth i'w trafod. Cwblhawyd adroddiad Gogledd Cymru 1842 gan yr is-gomisiynydd, H. Herbert Jones. Mae darnau o'i adroddiad yn ffurfio sail y gweithgaredd hwn.

Roedd llawer o byllau glo a gweithfeydd haearn ger y gamlas, yn enwedig yn ardal Cefn Mawr. Rydym wedi defnyddio cyfweliadau gyda gweithwyr o Weithfeydd Haearn Acrefair, Gweithfeydd Haearn a Glo Plas Kynaston, Gweithfeydd Haearn Bont y Consulty a Gefeiliau'r British Coal and Iron Company's Forges &c, fel sail i'r chwarae rôl.

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Chwarae Rôl - Plant sy'n gweithio mewn Diwydiant

## Nodiadau Canllaw i Athrawon

### Syniadau am Weithgareddau:



**Ymchwilio** i weithfeydd haearn, gefeiliau a phyllau glo ac yna ystyried pa fath o waith fyddai yna ar gyfer plant. Sut waith fyddai yno, yn eich barn chi?

**Trafodwch** fel dosbarth, beth yw rôl yr is-gomisiynydd? Beth oedden nhw'n geisio ei ddarganfod?

**Edrychwch** dros y wybodaeth a ddarperir yn y cardiau chwarae rôl. A oes angen i chi ddarganfod mwy am unrhyw eiriau neu frawddegau?

### Syniadau Gweithgareddau Eraill:



**Trafodwch:** Ar ôl cyfweld y gweithwyr, pa argymhellion fyddech chi'n ei wneud? Sut fyddech chi'n gwella eu hamodau?

Defnyddiwch adroddiad 1842 i ymchwilio i'r amodau ym mhyllau glo a gweithfeydd haearn eraill Gogledd Ddwyrain Cymru.

Cymharwch fywydau'r plant a'r bobl ifanc hyn gyda'ch bywydau chi. Sut mae pethau wedi newid? Ystyriwch bethau fel addysg, oedran gadael ysgol, deiet ac amser hamdden.

### Briff ar gyfer dygwyr:



Dewiswch un o'r cymeriadau chwarae rôl, darllenwch eu stori a dychmygwch sut oedden nhw yn edrych. Tynnwch lun o'ch cymeriad.

Chwaraewch rôl y cymeriad hwn a sgwrsiwch gyda chymeriadau eraill, er mwyn paratoi ar gyfer ateb cwestiynau'r is-gomisiynydd.

Mewn grwpiau, cymrwch dro i chwarae rôl yr is-gomisiynydd gan gyfweld y gweithwyr, defnyddio'r daflen gwestiynau chwarae rôl a gofyn unrhyw rai o'ch cwestiynau eich hun i ddysgu mwy am fywydau'r gweithwyr yn y gweithfeydd haearn a'r pyllau glo.

Wedyn, chwaraewch rôl aelod o Bwyllgor 1842 er mwyn gwrando ar ganfyddiadau'r is-gomisiynydd a gyflwynir gan eich athro. Yna, fel dosbarth, trafodwch a ydych yn credu y dylai plant barhau i weithio yn y pyllau glo a'r gweithfeydd haearn.

Pethau i'w hystyried:

- **Ydych chi'n credu fod y rhai oedd yn cael eu cyfweld yn ateb yn onest? Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam na fyddent wedi cwyno? A yw hyn yn effeithio eich penderfyniad?**
- **Beth yw'r rhesymau fod y plant yn parhau i weithio?**
- **Pam byddai'n well pe bai'r plant yn stopio gweithio?**
- **Beth yw manteision / anfanteision y ddau ateb?**

Pleidleisiwch ar eich penderfyniad.

# Crynodeb o Adroddiad yr Is-Gomisiynydd

# H. Herbert Jones, Ysw

## Pwy oedd H. Herbert Jones?

**Oed:** 45 yn 1841

**Swydd:** Is-Gomisiynydd Cyflogi Plant a Phobl Ifanc mewn Pyllau Glo a Gweithfeydd Mwynau yng Ngogledd Cymru ac ar Gyflwr a Thriniaeth y Plant a'r Bobl ifanc hynny.

**Ble:** Mwyngloddiau, pyllau glo a gweithfeydd haearn Sir Ddinbych a Sir y Fflint

**Cyflog:** £100 am yr adroddiad a gini (£1 ac un swllt) y diwrnod o gostau teithio

## Crynodeb o'r canfyddiadau

**Barn ar blant yn y gwaith:** Mae plant yn gweithio yn y pyllau glo ond mae'r oedran cychwyn yn amrywio o amgylch Gogledd Cymru. Yr oedran arferol i gychwyn yw tua 9 neu 10, ond mewn rhai llefydd mae'r plant yn cychwyn gweithio yn 7 oed.

**Barn ar ferched a menywod yn y pyllau glo:** Mae merched o dan 18 oed yn cael eu cyflogi ond dydyn nhw ddim yn mynd i lawr i'r pyllau glo, maent yn gweithio wrth geg y pwll. Maent yn bancio'r glo ac yn helpu i dynnu'r glo a'r haearnfaen i'r wyneb. Mae'r rhan fwyaf dros 18 gan fod rhaid iddynt fod yn gryf. Mae'r menywod yn ymddangos yn barchus er nad oes ganddynt lawer o sgiliau gwnïo, golchi a phobi. Mae ychydig ohonynt wedi bod yn yr ysgol a gall rhai ohonynt ddarllen ond mae'r rhan fwyaf wedi bod yn yr Ysgol Sul ac yn mynd i'r eglwys.

**Barn ar swyddi'r plant:** Fel arfer maent yn gweithio ar y wyneb yn torri, pigo a golchi'r mwynau er mwyn eu paratoi ar gyfer y smeltwyr. Maent yn cadw'r drysau aer yn agored, yn llenwi'r wagenni, yn rhidyllu'r glo, pwmpio, tynnu, bachu, gyrru'r ceffylau a'r mulod o dan y ddaear, yn torri'r glo a'i gludo i'r wyneb.

“Y gwaith mae'r plant a'r bobl ifanc yn y pyllau glo yn ei wneud amlaf yw tynnu neu wthio'r wagenni glo, a elwir yn 'pyches' ar lafar yn Ngogledd Cymru”. Maent yn tynnu'r wagenni drwy basio cadwyn o'r wagen rhwng coesau'r bachgen, sydd wedi ei rhwymo â gwregys o gwmpas ei ganol. Gan ei fod wedi ei glymu at y llwyth fel hyn mae'n ei dynnu drwy blygu i lawr, a mynd ymlaen ar ei bedwar. Mae rhai yn gwthio'r wagenni yn hytrach na'u tynnu, gan ddefnyddio eu dwylo a'u talcen. Mae'r plant yn dweud nad oes gwahaniaeth iddynt pa ddull maent yn ei ddefnyddio. Mewn gweithfeydd isel, lle mae gwythiennau glo yn denau iawn, maent yn eu tynnu, gan y gallant blygu'n is nag y gallant wrth wthio. I ddechrau'r mae'r gadwyn yn tueddu i dynnu'r croen, ac weithiau mae'n achosi cymaint o boen neu bod yn rhaid i'r bechgyn gael diwrnod neu ddau i ffwrdd o'r gwaith, ond does dim drygioni arall yn codi o'r ffordd annaturiol hon o weithio sydd yn ymddangos yn greulon, ac mae'r bechgyn yn cynefino yn fuan â'u ffawd truenus. Ar ôl eu llwytho, rhaid tynnu neu wthio'r wagenni, yn y ffordd a ddisgrifiwyd, o'r man gwaith i'r prif fan neu lle mae'r ceffylau, ac yno maent yn cwrdd â'r wagenni gweigion sy'n dychwelyd.”

**Barn ar amseru ac oriau:** Mae'r bechgyn yn y pyllau glo yn gweithio sifftiau dydd a nos. Gallant weithio goramser. Fel arfer mae sifftiau dydd rhwng 6am a 6pm a sifft nos rhwng 6pm a 5am. Os yw'r dynion yn gweithio goramser, rhaid i'r plant aros. Mae llai o waith yn y pyllau glo yn yr haf pan fydd llai o alw am lo.

# Crynodeb o Adroddiad yr Is-Gomisiynydd Parhad

## Crynodeb o'r canfyddiadau

### Barn ar amodau gwaith:

"Mae gwaith y plant hyn yn bwnc difrifol i adlewyrchu arno, ac yn drist i'w weld. Maent yn treulio'r diwrnod yn gweithio yn y dyfnderoedd o dan y ddaear, lle nad yw golau dydd yn cyrraedd, ac mewn cloddiadau lle na fyddant bob amser yn gallu sefyll i fyny yn syth. Mae'r aer maent yn ei anadlu yn llawn llwch a nwyon gwenwynig, ac mae peryglon o'u cwmpas ym mhobman. Mae eu cyflwr yn wirioneddol druenus. Ond ymysg cymaint o beryglon a chaledi roeddwn yn falch o weld nad ydynt bron byth yn cael eu curo na'u trin yn wael mewn unrhyw ffordd arall gan eu meistri."

Fel arfer mae'r plant yn cael brecwast adref, yn bwyta cinio yn y gwaith ac mae ganddynt awr i'w fwyta. Mae ffrindiau neu aelodau o'r teulu yn anfon bwyd iddynt. Yn yr haf maent yn ei fwyta lle maent yn gweithio, ond yn y gaeaf gallant fwyta yn ystafell yr injan. Yn y gaeaf maent yn cael amser cinio byrrach gan fod yn rhaid iddynt orffen yn gynt. Fel arfer maent yn bwyta bara, menyn, tatws, ac weithiau ychydig o gig moch gyda llaeth a photes. Maent yn cael bara a menyn rhwng brecwast a chinio a chinio a swper.

**Barn ar gychwyn gwaith:** Pan fydd plentyn yn mynd i'r pyllau am y tro cyntaf, mae eu tad neu ffrind yn mynd â nhw. Pan fyddant yn mynd i'r pyllau am y tro cyntaf maent yn ofnus ond maent yn arfer â'r gwaith yn gyflym. Mae rhai plant eisiau cychwyn gweithio gan eu bod am ennill eu cyflog eu hunain ac mae rhieni'n annog y gwaith hwn, a all fod yn niweidiol i'w haddysg.

**Barn ar ddillad:** Mae'r bechgyn yn gwisgo siacedi gwlân bras tew, ac mae ganddynt ddwy siwt a thri crys. Nid yw llawer ohonynt yn newid i fynd adref.

**Barn ar addysg:** Ychydig o addysg sydd gan lawer o'r plant, gan eu bod yn cael eu cymryd allan o'r ysgol yn gynnar er mwyn gweithio. Mae llawer ohonynt yn methu darllen ac ysgrifennu. Mae hyn yn waeth yn y gweithfeydd haearn gan eu bod yn cychwyn yn gynt na'r plant sy'n gweithio yn pyllau glo. Yr Ysgol Sul yw'r prif le mae plant ac oedolion yn dysgu darllen ac ysgrifennu. Gallant fynychu ar ddydd Sul ac ar fin nos ond mae hyn yn dibynnu ar sifftiau'r plant, ac os yw eu rhieni yn eu hanfon.

**Barn am yr eglwys:** Mwy o deuluoedd yn mynychu'r eglwys bellach.

**Cyflog:** Telir rhwng 2s 6d a 10s i blant, yn dibynnu ar y swydd, ac mae'r holl gyflog yn mynd i'r rhieni.

**Barn am iechyd y plant:** Yn gyffredinol mae nhw'n iach, ond dydyn nhw ddim yn mynd yn sâl ar ôl llyncu darnau bach o blwm a llwch gan nad yw llawer ohonynt yn ymolchi cyn bwyta. Os oes twymyn ar rywun gall rhain ledaenu'n haws mewn llefydd cyfyng heb unrhyw aer, diffyg gofod a glanweithdra yn y cartref. Yn gyffredinol mae'r plant yn iach ond maent yn cael llawer o broblemau wrth iddynt heneiddio wrth iddynt gael heintiau ar y frest.

Pan fyddant yn gorffen eu sifft mae'n well ganddynt gychwyn chwarae gemau na mynd adref i gael eu bwyd.

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Richard James

### Pwy oedd Richard?

**Oed:** 16

**Swydd:** Mae'n gweithio fel moldiwr yn yr efail. Mae wedi bod yn gweithio am 6 mlynedd.

**Ble:** British Coal and Iron Company's Forges, &C., Rhiwabon

**Teulu:** Mam a thad. Mae ei dad hefyd yn gweithio yn y gefeiliau.

**Swydd gyntaf:** Gweithio yn yr efail

**Addysg:** Aeth i'r ysgol a dysgodd ddarllen, ysgrifennu, a ffigyrau. Roedd ei rieni yn talu 2 swllt iddo fynd i'r ysgol.

**Eglwys:** Mae'n mynd i'r capel Methodistaidd ac yn mynd i'r ysgol Sul.

**Cyflog:** Mae'n ennill 1 swllt ac 8 ceiniog y diwrnod*.



**Enw:** Richard James

**Oed:** 16

**Swydd:** Moldiwr

**Amser ac oriau:** Mae'n gweithio pum diwrnod yr wythnos, ond weithiau chwech. Mae'n gweithio rhwng 6am a 6pm. Mae'n gweithio goramser yn aml, ac mae'n hoff o wneud gan ei fod yn cael mwy o arian. Mae'n gweithio nos hefyd, ac mae wedi gweithio 36 awr yn ddi-baid.

**Iechyd:** Mae wedi bod yn sâl yn y gorffennol gyda thwymyn ond gan ei fod yn aelod o glwb  Mae hyn yn helpu i dalu am feddyg a chyflog a gollwyd. Mae bob amser yn ymolchi ar ôl gorffen gweithio.

**Amodau gwaith:** Nid yw'n credu fod y gwaith yn galed iawn ac mae'n mwynhau'r gwaith. Nid yw'n cael ei guro na'i drin yn wael gan y dynion hŷn.

Mae'n mynd adref i gael ei brydau bwyd ac yn cael hanner awr i frecwast ac awr i ginio. Derbyniodd anrheg o 3 swllt am wneud ei waith yn dda gan y prif fowldiwr ac mae eraill hefyd wedi derbyn hwn.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Mae'n rhoi ei gyflog i'w fam.




* Roedd 12 ceiniog mewn swllt a 20 swllt mewn punt.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

# Richard Lee

## Pwy oedd Richard?

**Oed:** 17 yn 1841

**Swydd:** Gwthio neu dynnu'r wagenni glo yn y pyllau.

**Ble:** Gweithfeydd Glo a Haearn Plas Kynaston.

**Teulu:** Mam a thad

**Swydd gyntaf:** Mae wedi bod yn gweithio am saith mlynedd.

**Addysg:** Gall ddarllen, ond ni all ysgrifennu. Aeth i ysgol Y Waun am ddim am 2 flynedd cyn cychwyn gweithio. Mae'n darllen y Beibl a'r Testament. Mae'n mynd i'r Ysgol Sul.

**Eglwys:** Mae'n mynd i'r eglwys.

**Cyflog:** Mae'n ennill 2 swllt a 6 cheiniog y diwrnod*.

* Roedd 12 ceiniog mewn swllt a 20 swllt mewn punt.



**Enw:** Richard Lee

**Oed:** 17

**Swydd:** Gwthio wagenni glo

**Amser ac oriau:** Byddai'n ennill digon pe bai ganddo 6 diwrnod o waith ond weithiau dim ond 3 diwrnod sydd ganddo gan fod angen trwsio neu lanhau'r injan, neu os yw ceibiau ac offer yn cael eu hatgyweirio.

**Iechyd:** Nid yw'n ymolchi cyn bwyta ond mae'n iach bob amser. Mae ganddo lygaid da er fod ei lygaid yn teimlo'n rhyfedd am ychydig eiliadau wrth iddo ddod allan i olau haul.

**Amodau gwaith:** Mae ei rieni yn anfon bwyd cynnes iddo bob dydd. Mae ganddo ddillad da. Mae yn y pwll am 12 awr y dydd. Mae'n dweud fod yr aer yn afiach. Roedd ffrwydrad yr wythnos diwethaf lle cafodd bachgen ei losgi, ond ddim yn ddrwg. Does neb yn cael eu curo a ni chaniateir cosbi.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Mae'r rhan fwyaf o'i arian yn mynd i'w rieni. Mae'n aelod o Glwb Cyfeillgar o'r enw Clwb y Lodge y mae'n talu 2 swllt 6 cheiniog y flwyddyn iddo am ddoctor. Mae hefyd yn rhoi 1 swllt y mis fel y bydd yn derbyn 6 swllt yr wythnos os yw'n sâl neu'n anabl a £2 - £3 i roi tuag at ei angladd.



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Taflen Ffeithiau Cymeriad

# Edward Price

## Pwy oedd Edward?

**Oed:** 16

**Swydd:** Gweithio yn yr efail

**Ble:** Gweithfeydd Haearn Bont y Consulty, Rhiwabon

**Teulu:** Mam, tad, 3 o frodyr / chwiorydd

**Swydd gyntaf:** Mae wedi bod yn gweithio am 5 mlynedd. Ei swydd gyntaf oedd bachgen y pwll, a'i dad aeth â fo i'r pwll. Arferai dynnu'r wagenni glo gyda gwregys. Doedd o ddim yn mwynhau'r gwaith gan nad oedd yn cael ei dalu'n deg, roedd yr amodau'n llaith ac roedd y bechgyn hŷn yn curo'r rhai iau. Gadawodd er mwyn mynd i'r ysgol am ychydig fisoedd cyn cychwyn gweithio yn yr efail.

**Addysg:** Mae'n gallu darllen a phan fydd ganddo amser mae'n darllen y Beibl a llyfrau crefyddol. Gallai ysgrifennu ond mae wedi anghofio llawer o'r hyn oedd wedi ei ddysgu.

**Eglwys:** Mae'n mynd i'r capel Wesleaidd a'r Ysgol Sul bob dydd Sul.



**Enw:** Edward Price

**Oed:** 16

**Swydd:** Gweithio yn yr efail

**Cyflog:** 1 swllt y dydd *.

**Amser ac oriau:** Mae'n gweithio goramser yn yr haf pan fydd mwy o olau, mae'n gweithio dwy awr a hanner yn ychwanegol, dair neu bedair gwaith yr wythnos. Weithiau mae'n gweithio dros nos, ond ddim yn aml.

**Iechyd:** Mae'n cael bara a menyn gyda the neu goffi i frecwast, tatws i ginio a bara a llaeth i swper. Mae'n lwyrymwrthodwr (dydy o ddim yn yfed alcohol).

**Amodau gwaith:** Nid yw'r gwaith yn anodd iddo, ac mae'n hoff ohono.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Mae arian yn brin yn aml gan fod ei dad a'i frawd yn lowyr (gweithio yn y pyllau glo) ac yn aml maent allan o waith a rhaid i'w arian gefnogi'r teulu cyfan. Weithiau mae ei daid yn eu helpu.



* Roedd 20 swllt mewn punt.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Jonathan Roberts

### Pwy oedd Jonathan?

**Oed:** 11

**Swydd:** Pentyrrwr haearn yn yr efail

**Ble:** Gweithfeydd Haearn Bont y Consulty, Rhiwabon


**Teulu:** Mam a brawd sydd yn 13 oed, sydd hefyd yn gweithio yn yr efail. Aeth ei dad i America pan gafodd ei eni a dydyn nhw ddim wedi clywed unrhyw beth ganddo ers pum mlynedd.

**Swydd gyntaf:** Gwaith yn yr efail. Daeth ei fam o hyd i'r swydd iddo ac mae'n falch o gael y gwaith.

**Addysg:** Mae wedi bod yn yr ysgol am ychydig. Gall ddarllen Testament Cymraeg ond nid yw'n gallu ysgrifennu.

**Eglwys:** Mae'n mynd i'r capel dair gwaith yr wythnos ac yn mynd i'r ysgol Sul.

**Cyflog:** 10 ceiniog y diwrnod *.




**Amser ac oriau:** Mae'n gweithio yn ystod y dydd am un wythnos, ac yna yn y nos yr wythnos wedyn. Mae'r sifft dydd rhwng 6am a 6pm a'i sifft nos rhwng 6pm a 6am. Weithiau mae'n gweithio goramser o 6pm tan hanner nos gan fod angen yr arian arnynt. Nid yw'n chwarae ar ôl gwaith gan ei fod yn mynd adref at ei fam ac yna i'w wely.

**Iechyd:** Mae bob amser mewn iechyd da.

**Amodau gwaith:** Mae'r dynion yn garedig efo fo a dydyn nhw byth yn ei guro. Mae'r gefeiliau yn boeth iawn ond mae ei fam yn dod â llaeth a dŵr iddo i'w yfed. Mae wedi ei losgi ychydig o weithiau.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Mae ei fam yn cymryd ei gyflog a chyflog ei frawd. Dyma'r oll sydd ganddi ar wahân i ychydig yn ychwanegol mae'n ei wneud drwy bobi bara gwyn i'w werthu.




*Roedd 12 ceiniog mewn swllt a 20 swllt mewn punt.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

# Thomas Rees

## Pwy oedd Thomas?

**Oed:** 48 yn 1842

**Swydd:** Rholiwr (gweithio peiriant sy'n siapio'r haearn)

**Ble:** Gefail Gweithfeydd Haearn Acrefair

**Teulu:** Mae ganddo 5 o blant, mae 2 ohonynt yn gweithio efo fo yn yr efail, mae un yn 15 ac un yn 12.

**Swydd gyntaf:** Cychwynnodd pan oedd yn 5 neu 6 yn y pyllau yn Ne Cymru. Ei swydd gyntaf oedd agor y drysau aer yn y pyllau glo. Dywedodd ei fam fod yn rhaid iddo fynd i ennill arian i dalu am ei fwyd a'i ddillad ei hun. Roedd ganddo ofn ar y dechrau ond aeth i'r pwll gyda ffrind ei dad. Fe wnaeth grio llawer. Ar ôl ychydig amser daeth i arfer gyda bod o dan y ddaear. Yna aeth i weithio yn y gefeiliau pan oedd yn 7 neu 8.

**Addysg:** Ni fu erioed yn yr ysgol gan na chafodd gyfle i fynd i ysgol ddydd ac roedd wedi blino gormod i fynd i'r Ysgol Sul. Mae'n drist iawn na all ddarllen ac mae'n gweld faint o fwynhad mae eraill yn ei gael o ddarllen, yn enwedig y Beibl. Aeth ei feibion i'r ysgol cyn cychwyn gweithio yn y gefeiliau ac mae nhw'n gallu darllen ac ysgrifennu yn dda. Maent yn mynd i'r ysgol fin nos pan fyddant yn gweithio yn ystod y dydd, ond maent wedi blino gormod pan fyddant yn gweithio yn ystod y nos.



**Enw:** Thomas Rees

**Oed:** 48

**Swydd:** Rholiwr

**Eglwys:** Mae ei deulu yn mynd i'r eglwys bob dydd Sul.

**Cyflog:** Mae'n ennill £2 yr wythnos. Mae'r bechgyn yn ennill rhwng 4 swllt a 9 swllt yr wythnos*.

**Amser ac oriau:** Mae'n gweithio yn ystod y dydd am un wythnos, ac yna yn y nos yr wythnos wedyn. Mae'r sifft dydd rhwng 6am a 6pm a'i sifft nos rhwng 6pm a 6am.

**Iechyd:** Dydy o ddim yn credu fod y plant yn cael eu heffeithio gan y gwaith nos ar wahân i'r ffaith nad ydynt yn cysgu nac yn bwyta mor dda yn ystod y dydd ar ôl sifft nos. Maent yn ymolchi cyn bwyta bob amser, a chyn mynd i'r gwely.

**Amodau gwaith:** Mae'r gwaith yn drwm ac yn boeth iawn ac maent yn mynd yn sychedig iawn. Mae'n yfed 4 peint o gwrw main* a galwyn o ddŵr bob dydd. Mae'r bechgyn yn arfer yfed llaeth enwyn neu ddŵr. Mae'r bechgyn yn flinedig iawn ac nid yw'n hoffi eu gweld yn gorfod gwneud gwaith mor galed ond mae nhw'n falch o fod yn gweithio. Mae rhai dynion a bechgyn yn cael eu llosgi.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Mae'n gwario'r cyflog ar fwyd, dillad, diod, ac aelodaeth y clwb. Ni all gynilo unrhyw arian.




* Roedd 20 swllt mewn punt.

* Cwrw main – cwrw gwan iawn.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Joseph Jones

### Pwy oedd Joseph?

**Oed:** 35 yn 1841

**Swydd:** Rholiwr (gweithio peiriant sy'n siapio'r haearn)

**Ble:** Gefail Gweithfeydd Haearn Acrefair

**Teulu:** Gwraig a 4 o blant. Mae ei fab 10 oed wedi bod yn gweithio efo fo am fis.

**Swydd gyntaf:** Cychwynnodd weithio yn 9 oed, yn sythu'r bariau o'r roliau, gan ennill 8 ceiniog y diwrnod.

**Addysg:** Aeth i'r ysgol am gyfnod byr cyn cychwyn gweithio a dysgodd sut i ddarllen ond ni aeth yn ôl ar wahân i'r Ysgol Sul, ac mae'n dal i fynd i'r fan honno. Bu ei ferch 13 oed yn yr ysgol a gall ddarllen ac ysgrifennu. Bu ei fab 10 oed yn yr ysgol ac mae o'n gallu darllen hefyd. Mae'n gwybod am lawer o bobl sy'n anfon eu plant i'r Ysgol Sul i ddysgu. Mae'n meddwl fod addysg yn fantais fawr ac mae gallu darllen ac ysgrifennu yn golygu fod plant yn ymddwyn yn well.



**Enw:** Joseph Jones

**Oed:** 35

**Swydd:** Rholiwr

**Eglwys:** Mae ei deulu yn mynd i'r capel bob dydd Sul, fel mae nifer o bobl mae'n ei adnabod yn ei wneud.

**Cyflog:** Mae'n cael ei dalu fesul tunnell ac yn derbyn rhwng 30 a 60 swllt yr wythnos*.

**Amser ac oriau:** 6am tan 6pm. Weithiau mae'n gweithio goramser gyda'i blant.

**Iechyd:** Dydy o ddim yn meddwl fod y gwaith yn iach.

**Amodau gwaith:** Gwaith poeth, trwm a sychedig.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Dydy o ddim wedi cynilo unrhyw arian gan fod y cyfan yn mynd ar gadw ei deulu. Mae'n tanysgrifio i glwb cyfeillgar er mwyn cael cefnogaeth os bydd yn sâl.




* Roedd 20 swllt mewn punt.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

# Ann Lloyd

## Pwy oedd Ann?

**Oed:** 40 yn 1841

**Swydd:** Gweithio yn yr efail

**Ble:** Gweithfeydd Haearn Acrefair

**Teulu:** Mae Ann yn briod ag Abela Lloyd ac mae ganddynt saith o blant. Mae tri o'u meibion, sy'n 21, 14 a 12 oed yn gweithio yn y gefeiliau.

**Swydd gyntaf:** Bu'n rhaid iddi gychwyn gweithio pan oedd yn eithaf ifanc. Roedd yn brysur iawn yn y gwaith ac yn edrych ar ôl ei theulu.

**Addysg:** Cafodd ei phlentyn hynaf addysg dda a gall ddarllen, ysgrifennu a chyfri' arian ond ychydig iawn o addysg mae'r plant iau wedi ei gael gan na allent ei fforddio bellach. Weithiau mae'r plant hynaf yn mynd i'r Ysgol Sul, ond byddant yn gwrthod weithiau gan eu bod wedi blino gormod neu oherwydd nad yw eu dillad yn ddigon da.

**Eglwys:** Mae Ann a'u gŵr yn mynd i'r eglwys neu'r capel bob amser, ond dydy'r bechgyn ddim yn mynd bob amser.



**Enw:** Ann Lloyd

**Oed:** 40

**Swydd:** Gweithio yn yr efail

**Cyflog:** Arferai ennill 30 swllt ond dim ond 10 swllt mae hi'n ei ennill bellach. Mae ei meibion hynaf yn ennill rhwng 14 ceiniog a 3 swllt a 6 cheiniog y diwrnod*.

**Amser ac oriau:** Fel arfer bydd Ann a'i meibion yn gweithio rhwng 6am a 6pm ond bob yn ail wythnos mae ei meibion yn gweithio drwy'r nos.

**Iechyd:** Maent i gyd yn iach ac nid ydynt byth yn cwyno am y gwaith caled, ond mae'r bechgyn weithiau yn gysglyd iawn.

**Amodau gwaith:** Mae hi'n boeth ac yn fyglyd iawn yn yr efail. Mae'n waith caled a rhaid iddynt i gyd fod yn gryf.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Mae cyflogau'n isel ac ni all fforddio prynu llawer o gig ond mae'n bwydo'r teulu cystal ag y gall gyda bara, tatws, cig moch a llaeth. Dydyn nhw ddim yn gwario llawer ar ddiod.



* Roedd 12 ceiniog mewn swllt a 20 swllt mewn punt.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## William Jones

### Pwy oedd William?

**Oed:** 42 yn 1841
**Swydd:** Di-waith ers tair wythnos, pan gollodd 700 o bobl eu swyddi
**Lle arferai weithio:** Gefail Gweithfeydd Haearn Acrefair
**Teulu:** Mae ganddo wraig a 4 o blant.

**Swydd gyntaf:** Bu'n was ffarm ac yna aeth i lawr y pwll glo am 3 swllt y diwrnod. Ar y dechrau roedd arno ofn ac roedd yn teimlo'r gwaith yn galed. Roedd yn brifo'n aml ac fel gollodd ei archwaeth bwyd a'i ysbryd, ond daeth i arfer efo pethau ar ôl hanner blwyddyn. Gweithiodd yno am bedair blynedd ac fe gynilodd cyn prynu ceffyl a chert, a bu'n gwerthu glo o'r gert. 2 flynedd yn ôl bu farw ei geffyl a bu'n rhaid iddo fynd yn ôl o dan y ddaear at y gwaith haearn. Roedd yn ennill 2 swllt ac 8 ceiniog y diwrnod ac roedd ei fab 14 oed yn ennill 1 swllt a 10 ceiniog.

**Sefyllfa bresennol:** Mae'n ceisio dod o hyd ei waith, fel mae ei fab, ond mae'n bosib y bydd yn rhaid iddo fynd a'i deulu i'r wyrcws os na fydd yn gallu dod o hyd i waith. Mae nifer o'r dynion eraill un ai wedi gadael y wlad i chwilio am waith neu'n begera mewn gangiau o 3 neu 8.




**Addysg:** Mae wedi dysgu ysgrifennu a gall ddarllen ychydig ac mae'n dysgu yn yr Ysgol Sul, fel mae ei blant.

**Eglwys:** Mae'n mynd i'r Capel gyda'i deulu.

**Cyflog:** Di-waith

**Amser ac oriau:** Di-waith

**Iechyd:** Mae ei deulu yn dlawd iawn. Tatws, llaeth a bara oedd ei ddeiet ac mae ganddynt ddillad o wlân bras tew neu wlanen dew.

**Amodau gwaith:** Yn gyffredinol mae'r amodau i blant yn dda ond mae wedi gweld bechgyn yn cael eu curo am beidio gweithio'n ddigon cyflym ac maent wedi eu gorfodi i weithio yn hwyrach na 6 y nos ac mae wedi clywed y plant yn crio eisiau swper.

**Ar beth mae'r cyflog yn cael ei wario:** Roedd yn gallu byw a chadw ei deulu yn iawn tan iddo golli ei swydd, a dydy o ddim yn gwastraffu arian nac yn gwario ar ddiod. Rhaid i deuluoedd werthu eu heiddo fel eu clociau ac yna eu tai cyn iddynt gael unrhyw gymorth.




* Roedd 12 ceiniog mewn swllt a 20 swllt mewn punt.

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Cwestiynau Chwarae Rhan

















**Gallech ofyn**

- Beth yw eich enw?
- Faint yw eich oed?
- Beth yw eich swydd a lle ydych chi'n gweithio?
- Oes gennych chi unrhyw deulu?
- Allwch chi ddarllen ac ysgrifennu?
- Ydych chi'n mynd i'r eglwys / capel?
- Faint ydych chi'n ei ennill?
- Sut mae eich iechyd?
- Sut mae eich amodau gweithio?
- Ar beth ydych chi'n gwario eich cyflog?